


Longhouse i Ben Castell-coch

Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir



GRADDFA: 0 200 400 m

PELLTER/HYD: 0.9 milltir (1.5 km) 45 munud bob ffordd

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio)


CYMERIAD: 1 gamfa, llwybr concrit am y tro cyntaf 300m, 2 gridiau gwartheg gyda giatiau, yna arwyneb eithaf gwastad laswelltog ar gyfer gweddill y daith gerdded

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffordd o ymylon y dogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chŵn bob amser
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw

ALLWEDD

- Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir
- ▬▬▬▬ Llwybr Arfordir Sir Benfro Llwybr Cenedlaethol
- ▬▬▬▬ Hawl Tramwy Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus
- ☎ Ffôn Cyhoeddus
- 🚗 Arhosfan bysiau
- G Giât
- S Sticil



Longhouse i Ben Castell-coch

Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir

Parcio: Parcio ar iard fferm Longhouse (SM847333)

Hyd: 1500m bob ffordd

Gradd: Gwastad a fflat

Arwyneb: Llwybr hir, glaswelltog

Toiledau: Abercastell (SM854336)

Ffôn: Abercastell (SM854336)
Trefin (SM838325)

Parciwch ar y man glaswelltog ar y dde, ar ddiwedd y ffordd fynediad i Fferm Longhouse. Gofalwch nad ydych yn rhwystro mynediad ar gyfer cerbydau fferm mawr.

O iard y fferm, dilynwch yr arwyddion ar y dde i Garreg Samson tuag at grid gwartheg a giât. Ewch trwy'r giât ac ewch ymlaen ar hyd y llwybr. Ar y cyfan, mae'r llwybr yn wastad, yn fflat ac yn laswelltog, ond mae'r 300m cyntaf yn llwybr concrit llydan sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

Mae'r llwybr yn arwain at Garreg Samson, sef cromlech Neolithig neu siambr gladdu.

Fe'i hadeiladwyd tua 5,000 o flynyddoedd yn ôl, a fwy na thebyg y cafodd ei defnyddio ar gyfer o leiaf 100 claddedigaeth gwahanol. Mae'r capfaen dros 5m (16ft) o hyd a bron yn 3m (10ft) o led, gan orffwys ar dri o'r chwe charreg unionsyth.

Mae'r llwybr concrit yn parhau i'r grid gwartheg nesaf, ac yna'n newid i mewn i llwybr glaswelltog, cul.

Croeswch y sticil sydd â grisiau isel a rêl sy'n codi i fyny er mwyn ei drafod yn hwylus. Lle mae'r llwybr yn fforcio, dilynwch y llwybr uchaf sy'n aros yn agos at linell y ffens.

Dyma'r llwybr mwyaf gwastad a lleiaf serth i gyrraedd Llwybr yr Arfordir.

O'ch blaen, mae yna olygfeydd gwych tuag at Pwll Deri a Garn Fawr.

Trowch i'r chwith ar Llwybr yr Arfordir sy'n rhedeg ar hyd ymyl y clogwyni ond mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n berchen ar y tir yn gadael i bobl gerdded ar y man gwastad wrth ymyl y cae trwy giatau'r cae. Edrychwch am gudyllod (kestrels) tuag at Pen Castell-coch.

Fe allwch weld ffosydd a banciau caer bentir Oes Haearn Pen Castell-coch, sy'n Heneb Rhestredig, ar ôl mynd drwy'r giât olaf. Mae'n le gwych i gael picnic, gyda llond lle o flodau yn y Gwanwyn. Mae yna olygfeydd gwych o'r arfordir i'r de orllewin, gyda Phenberry a Charn Llidi yn y pellter. Fe allwch weld yr arwyddnod gwyn ar fynediad Harbwr Porthgain hefyd.

Ewch ymlaen ar hyd y llwybr, sy'n parhau i fod yn wastad ac yn fflat hyd nes cyrraedd Pwll-llong, neu ewch yn ôl ar hyd yr un llwybr. Mae'r wal o gerrig ar hyd y llwybr yn llawn o flodau gwyllt yn y Gwanwyn ac ar ddechrau'r Haf.

